



Anesthetig cyffredinol eich plentyn

Mae'r daflen hon yn esbonio beth i'w ddisgwyl pan fydd eich plentyn yn dod i'r ysbyty i gael llawdriniaeth gydag anesthetig cyffredinol. Mae wedi cael ei hysgrifennu gan anesthetyddion, yn cyd-weithio gyda chynrychiolwyr cleifion a rhieni.

Anesthesia ac anesthetyddion

Mae **anesthetig cyffredinol** yn sicrhau bod eich plentyn yn anymwybodol ac yn rhydd o boen yn ystod llawdriniaeth neu driniaeth.

Mae **anesthetyddion** yn feddygon arbenigol sy'n rhoi'r anesthetig ac yn gofalu am iechyd eich plentyn yn ystod llawdriniaeth a'r cyfnod gwella. Maent hefyd yn ymwneud yn agos â lleddfu poen eich plentyn ar ôl llawdriniaeth.

Anesthetigion yw'r cyffuriau a ddefnyddir i ddechrau a chynnal anesthesia.

- Mae rhai anesthetigion yn dechrau gyda phigiad yn y wythien gan ddefnyddio tiwb plastig o'r enw caniwla, ond yn parhau drwy anadlu nwy.
- Mae anesthetigion eraill yn dechrau drwy anadlu nwy ac wedyn caiff caniwla ei osod pan fydd eich plentyn yn cysgu.

Fel arfer, bydd yr anesthetydd neu'r nyrs yn yr adran asesu cyn llawdriniaeth yn eich holi ynglŷn ag unrhyw brofiad blaenorol sydd gan eich plentyn o ran anesthetigion neu bigiadau. Byddant hefyd, fel rheol, yn trafod dulliau rhoi anesthetig, a'r hyn sydd orau gennych chi a'ch plentyn. Yn aml, mae yna resymau meddygol dros wneud pethau mewn ffordd benodol a byddant yn siarad â chi am y dull fyddai orau ganddyn nhw o ran dechrau'r anesthetig, a pham. Mae'ch dymuniadau chi a'ch plentyn yn hynod o bwysig.

Wedi i chi drafod â'r anesthetydd, caiff un o'r cynlluniau a drafodwyd â chi ei ddilyn fel arfer. Weithiau caiff y drefn ddisgwyliedig ei newid, yn dibynnu ar ymateb eich plentyn ar y pryd.

Gallwch godi unrhyw gwestiynau sydd gennych ar ddiwrnod y llawdriniaeth neu cyn hynny.

Efallai y byddwch hefyd yn cwrdd Cymdeithion Anesthesia sy'n weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u hyfforddi i safon uchel. Gallwch ddarllen mwy am eu rôl a'r fîm anesthesia ar ein gwefan: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/anaesthesia-team

Paratoi'ch plentyn

Mae nifer o bethau y gellir eu gwneud i baratoi'ch plentyn ar gyfer dod i'r ysbyty.

Oni bai bod eich plentyn yn ifanc iawn, dylid ceisio esbonio:

- eu bod yn mynd i'r ysbyty
- y byddant yn cael llawdriniaeth neu archwiliad
- peth gwybodaeth sylfaenol am beth fydd yn digwydd iddynt pan fyddant yn yr ysbyty.

Bydd yr amser gorau i rannu'r wybodaeth hon yn dibynnu ar y plentyn. Mae'n debyg mai dim ond ar y diwrnod blaenorol y mae angen i blant dan oedran ysgol gael gwybod. Efallai y bydd angen rhoi mwy o rybudd i blant hŷn.

Gellir hefyd lawrlwytho taflenni ar gyfer plant o wahanol oedrannau ar y tudalennau *Gwybodaeth i blant, rhieni a gofalwyr* ar wefan y Coleg:

www.rcoa.ac.uk/childrensinfo

- *Rees Bear has an anaesthetic* (ar gyfer plant 3 i 6 oed gydag oedolyn i'w ddarllen).
- *Davy the detective: finding out about anaesthetics* (ar gyfer plant 7 i 11 oed)
- *General anaesthesia: a brief guide for young people* (ar gyfer plant 12 oed neu'n hŷn)

Mae *My Daycase operation: an Easy Read* a deunyddiau hygyrch hefyd ar gael yma: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/easyread

Mae yna hefyd animeiddiad o'r enw *A Little Deep Sleep – a Family Guide to Anaesthetics* sydd o gymorth i blant hyd at 12 oed: (www.vimeo.com/138062201).

Mae rhai ysbytai yn cynnig y cyfle i chi a'ch plentyn ymweld â'r ward llawdriniaeth i blant cyn diwrnod y llawdriniaeth. Mae hyn yn ffordd dda o baratoi'ch plentyn a lleihau unrhyw bryder. Mae gan nifer o ysbytai dîm therapi chwarae sy'n gallu esbonio ac annog trafodaeth drwy chwarae.

Rhai awgrymiadau am beth i'w ddweud wrth eich plentyn

- Esboniwch y bydd y llawdriniaeth neu brawf yn helpu'ch plentyn i wella neu wella ychydig, yn dibynnu ar ei amgylchiadau.
- Anogwch eich plentyn i siarad am ei llawdriniaeth ac i ofyn cwestiynau. Gall llyfrau, gemau, a straeon helpu. Mae adnoddau megis taflenni lliwio ar gael o wefan y Coleg: www.rcoa.ac.uk/childrensinfo

- Siaradwch â'ch plentyn am amseru. Pryd fyddan nhw'n cael y llawdriniaeth neu'r archwiliad? Am faint fyddan nhw'n aros yn yr ysbyty (os ydych eisoes yn gwybod)?

Os bydd eich plentyn yn aros yn yr ysbyty dros nos, gadewch iddo wybod os byddwch yn gallu aros yno hefyd. Os ydych chi'n ansicr am hyn, gallwch ffonio'r ysbyty i gadarnhau.

Gall eich nyrs roi cyngor i chi am beth i'w gymryd i'r ysbyty, ond cofiwch ddod ag unrhyw feddyginiaeth y mae eich plentyn yn ei chymryd yn rheolaidd - yn y pacedi gwreiddiol, pyjamas, brws dannedd, brws gwallt, dillad isaf neu glytiau/cewynnau ychwanegol, a hoff dedi bêr neu degan. Yn aml, mae plant yn mwynhau penderfynu beth i'w bacio ond mae'n well peidio dod â gormod o deganau.

Gall ffonau symudol neu lechi fod yn ddefnyddiol dros ben ond cofiwch ddod â gwefrydd a chlustffonau.

Dylech gael cyflenwad o boen laddwyr megis paracetamol ac ibuprofen yn barod ar gyfer pan fydd eich plentyn yn dychwelyd adref. Bydd eich ysbyty yn rhoi cyngor i chi am sut i'w cymryd.

Salwch ychydig cyn llawdriniaeth?

Dylech ffonio'r ysbyty os yw'ch plentyn yn datblygu peswch neu annwyd sylweddol o fewn pythefnos cyn y llawdriniaeth, neu ddolur rhydd a chwydu o fewn ychydig ddyddiau cyn y llawdriniaeth. Efallai y bydd angen gohirio'r llawdriniaeth nes bod eich plentyn yn well.

Gall beswch neu annwyd beri fod plant, yn enwedig plant iau, yn fwy tebygol o gael anawsterau anadlu o dan yr anesthetig. Gallant hefyd gynyddu'r perygl i blant o gael haint ar y frest. Mae'n bwysig felly eich bod yn rhoi gwybod i staff yr ysbyty os yw'ch plentyn wedi bod yn sâl.

Cofiwch hefyd adael i'r staff wybod os yw'ch plentyn wedi bod mewn cysylltiad yn ddiweddar â rhywun â brech yr ieir, y frech goch, neu heintiau eraill.

Mae brechu yn bwysig ar gyfer eich iechyd, ac rydym yn argymhell bod rhieni'n dilyn canllawiau brechu'r GIG ar y wefan: www.nhs.uk/conditions/vaccinations

Nid yw brechiad diweddar yn broblem pan fydd plentyn yn cael anesthetig, oni bai ei fod yn datblygu gwres uchel yn union cyn dyddiad y llawdriniaeth. Os digwydd hynny, mae weithiau'n well gohirio'r driniaeth. Anaml iawn y bydd hyn yn digwydd, ac felly rydym yn argymhell bod rhieni'n bwrw ymlaen â brechiadau a pheidio â'u gohirio oherwydd llawdriniaeth arfaethedig.

Aseiad clinigol/sgrinio dros y ffôn cyn y llawdriniaeth

Mae'n bosib y bydd nyrs o'r ysbyty yn eich galw cyn y llawdriniaeth i ofyn am fwy o wybodaeth am iechyd eich plentyn ac unrhyw feddyginiaeth y mae'n ei chymryd. Mae hyn yn caniatáu i'r ysbyty drefnu profion pellach neu baratoi cyfarpar arbennig, os bydd angen, cyn y llawdriniaeth ei hun.

Bydd nifer o ysbytai yn gwahodd plant i'r clinig asesiad cyn llawdriniaeth, yn enwedig y rhai sydd yn dioddef o salwch tymor hir neu a fydd yn cael llawdriniaeth fawr. Byddant yn holi am iechyd eich plentyn, unrhyw feddyginiaeth y mae'ch plentyn yn ei chymryd, ac unrhyw alergeddau. Byddant yn cymryd swab o groen cyn y llawdriniaeth (drwy rwbio'r croen yn ofalus â ffon gotwm feddal) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw haint, ac yn gwneud profion gwaed os oes angen. Efallai y byddant yn mynd â chi i weld y ward lle y bydd eich plentyn yn cael gofal, a byddant yn rhoi gwybodaeth ichi am llawdriniaeth eich plentyn. Gallech hefyd gwrdd ag anesthetydd fydd yn gallu trafod â chi'r opsiynau ar gyfer yr anesthetig ac unrhyw risgiau posibl.

Diwrnod y llawdriniaeth

Dylai'r ysbyty roi cyfarwyddiadau clir ichi ynghylch pryd y dylai'ch plentyn roi'r gorau i fwyta ac yfed. Mae'n hanfodol eich bod chi a'ch plentyn yn dilyn y cyfarwyddiadau hyn. Os oes bwyd neu hylif yn stumog eich plentyn yn ystod yr anesthetig, gallai godi i gefn y gwddf a mynd i lawr i'w ysgyfaint.

Mae plant lawer yn hapusach os nad ydynt yn gorfod aros yn hwy na sy'n rhaid heb fwyd a diod.

Mae'r isod yn ganllawiau cyffredinol ynghylch pryd y gall eich plentyn fwyta neu yfed cyn llawdriniaeth ddewisol, ond cofiwch ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir i chi gan yr ysbyty, oherwydd gallent fod yn wahanol.

- Gall plant fwyta pryd ysgafn a/neu yfed gwydraid o lefrith/llaeth chwe awr cyn llawdriniaeth. Wedi hynny, ni ddylent fwyta o gwbl, gan gynnwys fferins, ac ni ddylent gnoi gwm.
- Gall babanod sy'n bwydo ar y fron yfed llaeth o'r fron hyd at bedair awr cyn eu llawdriniaeth.
- Gall babanod sy'n bwydo o botel yfed llaeth fformiwla hyd at chwe awr cyn y llawdriniaeth (holwch yr ysbyty ynghylch cyfarwyddiadau gwahanol ar gyfer babanod bach iawn neu gynamserol).
- Dylai plant ddal i yfed dŵr neu sgwash gwan iawn hyd at awr cyn y driniaeth. Mae hyn yn caniatáu iddynt fod yn gyfforddus ac osgoi syched.

Mae rhai adrannau yn caniatáu neu'n argymhell bod plentyn yn cael diod pan fydd yn cyrraedd yr adran.

Os yw'r amser ers i'ch plentyn fwyta yn rhy fyr, yna bydd yn rhaid oedi cyn y llawdriniaeth, neu ei gohirio tan ddiwrnod arall.

Dylai eich plentyn gymryd unrhyw feddyginiaeth fel arfer ar ddiwrnod y llawdriniaeth.

Pan fyddwch yn cyrraedd yr ysbyty, bydd eich plentyn yn cael ei bwysu a'i fesur (os nad yw hyn wedi ei wneud yn barod mewn apwyntiad blaenorol). Bydd nyrs yn mesur eu tymheredd, eu pwls a chyfradd eu hanadlu, yn ogystal â lefelau ocsigen a phwysedd gwaed.

Mae'n arfer safonol i bob merch dros 12 oed gael prawf beichiogrwydd, drwy gymryd sampl wrin. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant:

www.rcpch.ac.uk/resources/pre-procedure-pregnancy-checking-under-16s-guidance-clinicians

Bydd y nyrs yn holi am feddyginiaethau ac alergeddau eich plentyn, ac yn rhoi dau stribyn enw ar ei arddwrn neu ffêr. Mewn rhai ysbytai, bydd stribyn ychwanegol, neu o liw gwahanol, yn cael ei ddefnyddio, os oes gan eich plentyn alergedd.

Daw anesthetydd i'ch gweld cyn y driniaeth er mwyn trafod yr anesthetig.

Bydd angen i'r anesthetydd gael gwybodaeth am iechyd cyffredinol eich plentyn, gan gynnwys:

- profiadau blaenorol o gael anesthetig
- unrhyw feddyginiaeth mae'ch plentyn yn ei chymryd
- unrhyw alergeddau
- unrhyw beswch, annwyd, dolur rhydd neu gyfogi diweddar.

Os yw eich plentyn neu aelodau eraill o'ch teulu wedi cael trafferth gydag anesthetig yn y gorffennol, mae'n hanfodol trafod hyn gyda'r anesthetydd a chyflwyno unrhyw wybodaeth sydd gennych chi neu berthynas.

Mae hwn hefyd yn amser da i drafod unrhyw bryderon sydd gennych chi neu eich plentyn ynghylch yr anesthetig. Mae'n syniad da gwneud rhestr o flaen llaw o unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Yn dibynnu ar y math o lawdriniaeth y bydd eich plentyn yn ei chael, efallai y bydd yr anesthetydd hefyd yn gallu merwino nerfau â phigiad anesthetig lleol tra bod eich plentyn yn cysgu i helpu i leddfu poen ar ôl y driniaeth.

Efallai y bydd hefyd angen defnyddio diferwyr neu ganwlâu ychwanegol. Bydd yr anesthetydd yn trafod y rhesymau dros wneud hyn â chi ynghyd â phwysigrwydd yr offer i gadw'ch plentyn yn ddiogel pan fydd yn cysgu ac yn gyfforddus pan fydd yn deffro/dihuno.

Gohirio'r driniaeth neu'r archwiliad.

Weithiau, wrth asesu eich plentyn, mae'n bosibl y bydd yr anesthetydd yn darganfod gwybodaeth sy'n golygu y byddai'n fwy diogel peidio â gwneud y driniaeth y diwrnod hwnnw. Os bydd hyn yn digwydd, byddant yn dweud os a phryd y maent yn disgwyl y bydd yn ddiogel bwrw ymlaen â'r driniaeth.

Rhagfoddion

Dyma yw enw'r cyffuriau a roddir cyn yr anesthetig.

Gall yr anesthetydd drafod rhoi cyffuriau tawelu i'ch plentyn i'w helpu i ymlacio. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu rhoi fel arfer gan eu bod yn gallu gwneud plant yn gysglyd ar ôl y llawdriniaeth. Gellir rhoi cyffuriau lleddfu poen fel rhagfoddion hefyd, neu gall yr anesthetydd awgrymu triniaeth ychwanegol ar gyfer cyflyrau fel asthma.

Rhoddir y rhan fwyaf o ragfoddion ar ffurf hylif.

Eli anesthetig lleol

Bydd bron bob plentyn yn cael 'eli hud' ar gefn eu dwylo a gorchudd clir drosto. Weithiau gelwir hwn yn 'Ametop', 'EMLA' neu enw masnachol arall. Mae'n eli anesthetig lleol sy'n cymryd 30-60 munud i weithio.

Mae'r eli hwn yn lleihau'r boen sydyn pan fydd caniwla'n cael ei osod yn llaw neu fraich eich plentyn. Mae'n lleihau'r boen yn effeithiol mewn naw o bob deg plentyn.

Os nad yw'n bosib defnyddio'r eli, gellir defnyddio anesthetig lleol ar ffurf chwistrell oer i ferwino'r ardal.

Mynd i'r ystafell lawdriniaeth

Mae'r rhan fwyaf o ysbytai yn darparu gynau lliwgar i'ch plentyn eu gwisgo wrth fynd i'r ystafell lawdriniaeth. Serch hynny, mae'n bosib y gall eich plentyn wisgo ei ddillad neu byjamas ei hun. Gall wisgo clwt/cewyn neu 'pull-ups' yn ôl yr angen. Bydd eich nyrs yn eich cynghori ynghylch pa ddillad isaf y gellir eu gwisgo.

Gall eich plentyn gerdded i'r ystafell anesthetig, neu deithio ar wely, cadair olwyn neu droli ysbyty, neu gael ei gario. Mae rhai unedau'n cynnig mathau mwy hwyliog o gludiant. Mewn rhai ysbytai gellir cynnig reid mewn car trydan.

Yn yr ystafell anesthetig

Bydd nyrs neu ymarferydd gofal iechyd megis arbenigwr chwarae o'r ward yn mynd gyda chi a'ch plentyn i'r ystafell anesthetig. Bydd eich plentyn yn gallu cymryd tegau neu gysurwr. Gall ffôn symudol neu lechen/tailed fod yn arbennig o ddefnyddiol i dynnu sylw plant â gemau neu hoff ffilmiau.

Os dymunwch, bydd croeso i chi aros gyda'ch plentyn i'w gysuro wrth iddo gael yr anesthetig. Prin iawn yw'r amgylchiadau lle na fydd hyn yn bosibl. Unwaith y bydd eich plentyn yn cysgu, bydd aelod o staff yn mynd â chi allan o ardal yr ystafell lawdriniaeth i ganiatáu i'r fîm anesthetig ofalu am eich plentyn.

Os ydych chi'n bryderus iawn eich hun, **nid oes raid** i chi fynd gyda'ch plentyn i'r ystafell anesthetig. Gall oedolyn arall o'r teulu neu nyrs ward neu therapydd chwarae fynd yn eich lle.

Mae'n bosibl y bydd eich plentyn yn gorwedd ar droli pan fydd yr anesthetig yn cael ei roi. Efallai y bydd plant llai yn gallu eistedd ar eich glin i gael yr anesthetig. Byddai'r staff wedyn yn eu codi i'r troli, efallai gyda'ch help chi.

Bydd yr anesthetydd yn defnyddio naill ai nwy o fasg wyneb neu diwb, neu bigiad trwy ganiwla i ddechrau'r anesthetig. Bydd hyn wedi cael ei drafod â chi ymlaen llaw, er weithiau mae'n bosibl y bydd yn rhaid newid y cynllun os na fydd eich plentyn yn gallu cydweithredu.

Bydd y rhan fwyaf o blant hŷn yn cael pigiad trwy ganiwla. Os defnyddir caniwla, bydd eich plentyn fel arfer yn mynd yn anymwybodol ac yn llipa yn gyflym iawn. Weithiau gall y pigiad deimlo'n oer neu'n bigog yn y fraich. Bydd yr anesthetydd wedyn yn defnyddio masg i barhau â'r anesthetig a darparu ocsigen ychwanegol er diogelwch.

Os yw'r anesthetig yn cael ei ddechrau â nwy, mae'r anesthetydd fel arfer yn rhoi'r nwy trwy fasg, neu efallai trwy law wedi'i gosod yn ysgafn dros drwyn a cheg eich plentyn. Mae nwyon anesthetig yn aroglu'n debyg i binnau ffelt.

Fel rheol mae'n cymryd ychydig o amser (gall fod rhwng ychydig eiliadau a munud neu ddau) i'r anesthetig weithio. Mae'n hollol normal i'r plentyn fynd yn aflonydd yn ystod y cyfnod hwn neu i'w anadlu swno'n wahanol. Gallai hyd yn oed chwyrnu'n uchel. Bydd staff yn eich helpu i ddal eich plentyn yn ofalus ond yn gadarn.

Wedi hynny gofynnir ichi adael yr ystafell anesthetig. Bydd aelod o staff yn cerdded allan o'r ystafell lawdriniaeth gyda chi.

Unwaith y bydd eich plentyn wedi cael ei anesthetig, bydd yr anesthetydd yn gosod caniwla fel y gellir rhoi'r cyffuriau lladd poen ac anesthetig sydd eu hangen.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd eich plentyn yn cael ei gludo i'r ystafell lawdriniaeth i gael y llawdriniaeth neu'r driniaeth.

Bydd yr anesthetydd yn aros gyda'ch plentyn trwy gydol y driniaeth a bydd yn monitro pwysedd gwaed, pwls, anadl a lefelau ocsigen eich plentyn yn agos, gan sicrhau ei fod yn ddiogel a bod yr anesthetig yn gweithio'n llawn.

Mae hwn yn amser da i chi fynd i gael rhywbeth i'w fwyta a'i yfed, ond cofiwch adael i'r staff wybod eich bod chi'n mynd a rhoi rhif ffôn symudol iddyn nhw fedru cysylltu â chi.

Ar ôl y llawdriniaeth

Yn yr ystafell adfer

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deffro/dihuno mewn ystafell adfer. Mae'r anesthetydd gerllaw a gall roi cymorth os bydd angen. Bydd ganddyn nhw rwymyn dros eu caniwla i'w gadw'n ddiogel, ac o'r golwg, wrth iddyn nhw ddeffro/ddihuno.

Mae pob plentyn yn cael gofal gan nyrs arbenigol neu ymarferydd cymwys arall fydd yn sicrhau bod eich plentyn yn gyfforddus. Byddant yn rhoi cyffuriau lladd poen a gwrth-salwch ychwanegol os bydd angen. Byddwch yn cael eich galw i fod gyda'ch plentyn ar adeg briodol yn ystod y broses ddeffro/ddihuno.

Gofid wrth ddeffro/ddihuno

Mae rhai plant yn dangos rhai arwyddion o ddryswch a/neu ofid pan fyddant yn deffro/dihuno. Mae hyn yn fwy tebygol mewn plant iau.

Ychydig iawn o blant sy'n mynd yn aflonydd iawn. Efallai y byddan nhw'n criô/llefain ac yn rhoio o gwmpas neu'n chwifio'u breichiau a'u coesau. Gall yr ymddygiad hwn bara tua 30 munud, ac weithiau'n hirach. Mae staff yr ystafell adfer yn brofiadol mewn gofalu am blant yn y cyfnod hwn. Byddant yn ystyried a fyddai cynyddu'r dos o gyffuriau lladd poen yn helpu. Byddant yn egluro sut i dawelu a chysuro eich plentyn.

Os bydd plentyn yn ofidus wrth ddeffro/ddihuno mae hynny'n naturiol yn peri pryder i rieni. Byddai'n werth dweud wrth yr anesthetydd os yw'ch plentyn wedi cael y math hwn o ofid yn y gorffennol, fel y gallant drafod ffyrdd o'i osgoi yn y dyfodol.

Lleddfu poen

Er mwyn sicrhau bod eich plentyn mor gyfforddus â phosibl wrth ddeffro/ddihuno, defnyddir cyffuriau lleddfu poen, ac weithiau pigiadau anesthetig lleol, yn ystod yr anesthetig. Mae'r math o gyffur a roddir yn dibynnu ar y driniaeth.

Bydd yr anesthetydd, y llawfeddyg a/neu staff y ward yn trafod â chi y dull lleddfu poen mwyaf priodol ar gyfer eich plentyn.

Mynd adref

Yn aml, mae'n bosibl i'ch plentyn fynd adref ar ddiwrnod y driniaeth os yw'r llawfeddyg a'r anesthetydd yn fodlon fod hyn yn saff a bod eich plentyn yn gwella'n foddhaol.

Byddwch yn cael cyngor ar sut i roi'r cyffuriau lleddfu poen pan fyddwch gartref. Mae'n rhaid dilyn y cyngor hwn yn ofalus.

Gall rhai plant deimlo'n sâl neu gyfogi ar y ffordd adref. Byddwch yn barod ar gyfer hynny!

Os byddwch yn mynd â'ch plentyn adref ar ddiwrnod y driniaeth, cewch rif ffôn i'w alw os ydych yn bryderus am gyflwr eich plentyn pan fyddwch gartref.

Wedi'r driniaeth

Mae mynd i'r ysbyty yn achosi pryder i rai plant. Bydd rhai plant yn cysgu'n wael ar ôl arhosiad ysbyty. Efallai y byddant yn glynu atoch ac yn pryderu am eich gadael. Gall eu hymddygiad fod yn anos nag o'r blaen. Fel arfer, dylai hyn ddychwelyd i normal o fewn tair i bedair wythnos.

Risgiau a sgîl-ffeithiau anesthetig eich plentyn

Mae problemau difrifol yn anghyffredin iawn gydag anesthetigion modern. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwella'n gyflym ac yn ôl i normal yn fuan wedi'r driniaeth a'r anesthetig. Gall nifer o blant deimlo'n sâl neu gael dolur gwddf. Nid yw'r rhain yn para'n hir fel arfer. Mae cyffuriau ar gyfer cyfog a phoen bol ar gael, a chânt eu defnyddio'n aml.

I blentyn iach sy'n cael mân lawdriniaeth, mae'r canlynol yn gyffredin iawn (mwy nag 1 o bob 10 plentyn):

- cur pen/pen tost neu ddolur gwddf
- cyfog neu bendro
- cynhyrfu wrth ddeffro/ddihuno

O ran cymhlethdodau mwy anghyffredin, mae oddeutu 1 o bob 10,000 plentyn yn cael adwaith alergaidd drwg i'r anesthetig.


I blentyn iach sy'n cael llawdriniaeth ddewisol sy'n fechan neu'n gymedrol mae'r risg o farw o dan anesthetig yn debygol o fod yn llai nag 1 o bob 100,000. Mae'r mwyafrif o farwolaethau sy'n digwydd tuag amser y llawdriniaeth yn cael eu hachosi gan ffactorau sydd yn ymwneud ag iechyd y claf neu'r math o lawdriniaeth y mae'n ei chael, ac nid gan yr anesthetig yn uniongyrchol.

Mae gwybodaeth am y risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chael anesthetig neu driniaeth o dan anesthetig ar gael ar ein gwefan:

www.rcoa.ac.uk/patientinfo/risks/risk-leaflets

Deall risg

Mae pobl yn deall geiriau a rhifau mewn ffyrdd gwahanol. Gall y raddfa hon eich helpu.



Gydag anesthetigion modern, mae problemau difrifol yn anghyffredin.

Mae risg difrifol neu gymhlethdod yn fwy tebygol os oes gan eich plentyn gyflwr difrifol, gefndir meddygol cymhleth, neu os yw o dan bedair blwydd oed a/neu yn cael llawdriniaeth fawr.

Gall risgiau neilltuol berthyn i anesthetig yn achos plant â chyflyrau dwys neu fabanod sy'n cael llawdriniaeth. Gall yr anesthetydd drafod hyn â chi o flaen llaw. Er nad yw'n bosib diddymu pob risg yn llwyr, mae offer modern, hyfforddiant a chyffuriau yn golygu bod cael anesthetig yn saff iawn.

Mae effeithiau tymor hir anesthesia ar fabanod a phlant ifanc iawn yn destun gwaith ymchwil cyfredol. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth gref bod anesthetigion yn amharu ar ddatblygiad, ac mae'n bwysig pwysu a mesur unrhyw risg yn erbyn pwysigrwydd cyffredinol anesthesia mewn triniaeth neu lawdriniaeth.

Mae gwybodaeth am ddiwyddiadau difrifol ym maes anesthesia pediatrig ar gael ar-lein: *Incidence of severe critical events in paediatric anaesthesia in the United Kingdom: secondary analysis of the anaesthesia practice in children observational trial (APRICOT study)*:

www.onlinelibrary.wiley.com/doi/abs/10.1111/anae.14520

Gallwch ymweld â'r gwefannau isod am fwy o wybodaeth gan Gymdeithas Anesthetyddion Pediatreg Prydain Fawr ac Iwerddon:

www.apagbi.org.uk/guidelines neu

www.apagbi.org.uk/children-and-young-people

Mae gwybodaeth am y risgiau cyffredinol i blant hŷn a phobl ifanc o gael anesthetig ar gael ar wefan y Coleg: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/risk

Mae gwybodaeth am gyffuriau lleddfu poen ar gael yn ein taflen *Anaesthesia explained* sydd ar gael ar ein gwefan:

www.rcoa.ac.uk/documents/anaesthesia-explained

Rydym ni'n ceisio sicrhau bod yr wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfoes, ond ni allem warantu hynny. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ateb pob cwestiwn sydd gennych, na delio â phopeth sydd o bwys i chi. Dylech drafod eich penderfyniadau ac unrhyw amheuon sydd gennych chi gyda'ch fîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid ystyried y daflen hon, ar ei phen ei hun, yn gyngor. Ni ellir defnyddio'r daflen hon at unrhyw bwrpas masnachol nac unrhyw bwrpas busnes. I weld yr ymwadiad llawn, cliciwch yma (www.rcoa.ac.uk/patient-information/translations/welsh).

Mae pob cyfieithiad yn cael ei darparu gan gymuned cyfieithwyr Translators Without Borders. Mae ansawdd y cyfieithiadau yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau mor gywir ag sy'n bosib, ond mae yna risg o anghywirdebau a chamddehongli peth gwybodaeth.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r daflen hon.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau, e-bostiwch:

patientinformation@rcoa.ac.uk

Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)

Churchill House, 35 Red Lion Square, London WC1R 4SG

020 7092 1500

www.rcoa.ac.uk

Chweched Argraffiad, Chwefror 2020

Bydd y daflen hon yn cael ei hadolygu o fewn tair blynedd i'w chyhoeddi.

© 2020 Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion

Caniateir copïo'r daflen hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r daflen hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.